# Ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru

(diwygiwyd Gorffennaf 2017)



## Canllawiau

Cylchlythyr Llywodraeth Cymru: rhif 012/2017
Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2017
Yn disodli cylchlythyr: rhif 002/2016

# Ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru

## Cynulleidfa

Athrawon newydd gymhwyso (ANGau); mentoriaid ymsefydlu (MY); gwirwyr allanol (GA); penaethiaid; cyrff priodol (CP); awdurdodau lleol (ALl); consortia rhanbarthol; undebau'r gweithlu addysg; Estyn; Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA); cadeiryddion y llywodraethwyr; ysgolion annibynnol; sefydliadau addysg bellach; asiantaethau athrawon cyflenwi; athrawon dan hyfforddiant a sefydliadau addysg gychwynnol i athrawon (AGA).

## Trosolwg

Mae ymsefydlu yn ofyniad statudol ar gyfer pob athro/athrawes newydd gymhwyso yng Nghymru sydd wedi ennill statws athro cymwysedig (SAC) ar ôl 1 Ebrill 2003. Dyma gyfarwyddyd statudol sy'n darparu manylion ynglŷn â gofynion rheoli a chyflenwi ymsefydlu yng Nghymru.

## Camau i'w cymryd

Bod yr holl unigolion neu gyrff sy'n ymwneud ag ymsefydlu statudol yng Nghymru yn gweithredu'r gweithdrefnau a'r cyngor a nodir yn y cylchlythyr cyfarwyddyd hwn, ac yn rhoi sylw haeddiannol iddynt.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Y Tîm Ymsefydlu
Is-adran Cwricwlwm
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: inductioninfo@llyw.cymru


## Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Dysgu Cymru yn www.dysgu.cymru.gov.uk

## Dogfennau cysylltiedig

*Safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer ymarferwyr addysg yng Nghymru* (2011); Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015. Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2006; *Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol* (Yr Adran Addysg); *Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth* (2017).

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG32242 ISBN digidol 978 1 4734 9960 7

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Y trefniadau ymsefydlu yng Nghymru** | **5** |
| **Cymorth yn ystod y cyfnod ymsefydlu** | **8** |
| **Estyniadau i'r cyfnod ymsefydlu** | **10** |
| **Gweithredu os ceir cynnydd anfoddhaol** | **11** |
| **Penderfynu'n derfynol ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu** | **12** |
| **Canlyniadau methu cwblhau'r cyfnod ymsefydlu'n foddhaol o ran cyflogaeth** | **13** |
| **Atodiad A: Rolau a chyfrifoldebau yn ystod cyfnod ymsefydlu** | **14** |
| **Atodiad B: Sefydliadau addysg bellach** | **20** |
| **Atodiad C: Ysgolion annibynnol** | **21** |
| **Atodiad D: Cyfnodau ymsefydlu a gwblhawyd cyn 1 Medi 2012** | **22** |
| **Atodiad E: Ymsefydlu ac ysgolion sydd angen mesurau arbennig** | **23** |

# Cyflwyniad

Mae'r cylchlythyr cyfarwyddyd hwn yn nodi'r arferion a'r gweithdrefnau sy'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015[1] (O.S. 2005/1818 (C.146) ('y Rheoliadau').

Rhaid i unrhyw unigolyn neu gorff sy'n cyflawni swyddogaeth o dan y Rheoliadau roi sylw i'r cyfarwyddyd hwn wrth gyflawni'r swyddogaethau hynny.

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn cyflenwi gofynion y Rheoliadau, a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r Rheoliadau. Mae hefyd yn amlinellu'r cymorth a gaiff ei ddarparu i athrawon newydd gymhwyso drwy gydol eu cyfnod ymsefydlu.

Mae cyfnodau ymsefydlu statudol yn berthnasol i'r holl athrawon a enillodd eu statws athro cymwysedig (SAC) ar ôl 1 Ebrill 2003.

Dylai athrawon newydd gymhwyso (gan gynnwys rhai sy'n cyflenwi) a phawb sy'n gysylltiedig â'r broses ymsefydlu sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r trefniadau ymsefydlu statudol yng Nghymru a'r safonau proffesiynol perthnasol.[2]

## Newidiadau sy'n dod i rym o 1 Medi 2017 ymlaen

Mae'n ofynnol i athrawon newydd gymhwyso sy'n dechrau ar eu cyfnod ymsefydlu o 1 Medi 2017 ymlaen ddangos sut mae eu harferion yn bodloni'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth[3].

Dylai athrawon sydd newydd gymhwyso a ddechreuodd eu cyfnod ymsefydlu cyn 1 Medi 2017 barhau â'r safonau athrawon wrth eu gwaith a oedd yn weithredol pan ddechreuodd eu cyfnod ymsefydlu.

Caiff y person a bennir i gefnogi'r athro newydd gymhwyso (ANG) o ddydd i ddydd ei alw bellach yn 'fentor ymsefydlu'. Yn y rhan fwyaf o achosion, cydweithiwr yn yr ysgol fydd hwn. O dan amgylchiadau eraill, gall fod yn fentor a fydd yn gweithio yn lleol neu'n rhanbarthol (e.e. yn gweithio i nifer o ysgolion neu'n mentora athawon cyflenwi).

Bydd rôl y 'gwiriwr allanol' yn gyfatebol yn gyffredinol i'r hyn a alwyd hyd yma yn 'fentor allanol'.

**Pwrpas ymsefydlu statudol yw:**

- cyfrannu at y gwaith o ddatblygu gweithlu addysgu rhagorol er budd pob dysgwr
- cefnogi athrawon newydd gymhwyso er mwyn iddynt gael y dechrau gorau posibl i'w gyrfaoedd
- rhoi cyfle i athrawon newydd gymhwyso ddatblygu eu harfer drwy ganolbwyntio ar y gofynion a nodir yn y safonau proffesiynol perthnasol

---

[1] Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015
[2] http://learning.gov.wales/resources/collections/professional-standards?lang=cy
[3] Y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth 2017

- paratoi athrawon newydd gymhwyso ar gyfer eu gyrfa drwy sefydlu'r sgiliau a'r ymddygiadau y bydd angen iddynt adeiladu arnynt drwy gydol eu gyrfa
- sicrhau bod athrawon newydd gymhwyso'n canolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol
- sicrhau bod athrawon newydd gymhwyso'n meddu ar y sgiliau i oresgyn yr heriau a ddaw yn sgil diwygio'r sector addysg
- sicrhau bod athrawon newydd gymhwyso'n canolbwyntio eu dysgu proffesiynol ar y dulliau mwyaf effeithiol gan gynnwys ymarfer myfyriol, cydweithio effeithiol, hyfforddi a mentora, a defnyddio data a thystiolaeth ymchwil yn effeithiol
- adeiladu ar y profiadau a gafwyd mewn addysg gychwynnol athrawon i gefnogi twf proffesiynol gydol gyrfa.

**Gweithio mewn partneriaeth**
Mae cyfnod ymsefydlu effeithiol yn golygu gwaith partneriaeth rhwng nifer o randdeiliaid allweddol sydd oll â'u prif gyfrifoldebau eu hunain.

Dylai **athrawon newydd gymhwyso** gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu proffesiynol eu hunain a darparu tystiolaeth o sut mae eu hymarfer yn bodloni safonau proffesiynol.

Bydd y **pennaeth a'r ysgol gyfan** yn sicrhau bod cymorth ar gael o ddydd i ddydd i'r ANG drwy gydol y cyfnod ymsefydlu fel rhan o drefniadau mentora cyffredinol yr ysgol. Mae'r **pennaeth** yn cydweithio'n agos â'r mentor ymsefydlu a'r gwiriwr allanol.

Y **mentor ymsefydlu** sy'n darparu cymorth o ddydd i ddydd i'r ANG ac mae'n gweithio gyda'r gwiriwr allanol i sicrhau bod yr ANG yn derbyn mentora a goruchwyliaeth o safon ac i roi argymhelliad i'r corff priodol ar ganlyniad y cyfnod ymsefydlu. Bydd y mentoriaid ymsefydlu wedi'u lleoli fel arfer yn yr un ysgol ond mae'n bosibl hefyd y gallant gael eu defnyddio ar draws nifer o ysgolion neu weithio gyda grŵp o athrawon cyflenwi.

Y **gwiriwr allanol** sy'n sicrhau ansawdd trefniadau'r cyfnod ymsefydlu ar ran y corff priodol ac mae'n gweithio gyda'r mentor ymsefydlu a'r corff priodol i sicrhau bod athrawon newydd gymhwyso'n cael mentora a goruchwyliaeth o safon. Mae'r gwiriwr allanol yn gwneud argymhelliad i'r corff priodol ar ganlyniad y cyfnod ymsefydlu.

Y **corff priodol** sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol o sicrhau bod y cyfnod ymsefydlu yn bodloni'r gofynion statudol ac mae'n defnyddio tystiolaeth asesu i wneud y penderfyniad terfynol o ran canlyniad y cyfnod ymsefydlu. Ar gyfer ysgolion a gynhelir ac ysgolion arbennig nas cynhelir, rhaid i awdurdod lleol yr ysgol weithredu fel corff priodol. Er hynny, gall yr awdurdod lleol, yn ymarferol, gytuno i ddirprwyo'r rôl yma i'r consortiwm rhanbartho perthnasol sy'n gyfrifol am recriwtio, hyfforddi a lleoli gwirwyr allanol.

Pan fo ANG yn gwneud rhan o'i gyfnod ymsefydlu, neu ei gyfnod ymsefydlu cyfan, drwy gyflenwi, **yr asiantaeth gyflogi neu gyflenwi**, fel cyflogwr yr ANG, fydd yn darparu'r cymorth angenrheidiol i'w hathrawon newydd gymhwyso er mwyn adlewyrchu natur y trefniant gyda gwahanol ysgolion, a'r asiantaeth fydd yn sicrhau y caiff gwiriadau diogelwch a chyn-cyflogaeth eu gwneud pan fyddant yn lleoli athrawon newydd gymhwyso mewn ysgolion.

**Cyngor y Gweithlu Addysg** sy'n gyfrifol am gasglu ynghyd a chynnal ffynhonnell ganolog o ddata am athrawon newydd gymhwyso sy'n gwneud cyfnod ymsefydlu ac am weinyddu cyllid ymsefydlu i ysgolion, gan weithio gyda chonsortia rhanbarthol. Mae Cyngor y Gweithlu Addysg hefyd yn cynnal ac yn cynnig mynediad i'r proffil ymsefydlu statudol ar-lein drwy'r

Pasport Dysgu Proffesiynol er mwyn galluogi athrawon newydd gymhwyso i ystyried y safonau proffesiynol perthnasol a chofnodi eu profiadau proffesiynol.

**Llywodraeth Cymru** sy'n llunio rheoliadau a pholisi ac yn nodi blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol. Mae'n gweithio gyda chonsortia rhanbarthol a Chyngor y Gweithlu Addysg i fonitro ac adolygu trefniadau cenedlaethol.

**Darperir gwybodaeth bellach am rolau a chyfrifoldebau yn Atodiad A.**

# Y trefniadau ymsefydlu yng Nghymru

## Gofynion cyfreithiol

Er mwyn cael eu cyflogi fel athro/athrawes mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru, mae'n ofyniad cyfreithiol, ar wahân i rai eithriadau penodol, bod yn rhaid i athrawon newydd gymhwyso feddu ar SAC a'u bod wedi cofrestru yng nghategori 'athro ysgol' gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

Gellir dod o hyd i fanylion am y broses gofrestru ar wefan Cyngor y Gweithlu Addysg yn www.cga.cymru.

Mae'n hanfodol bod yr ANG yn cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg cyn dechrau ei swydd addysgu gyntaf a'i fod yn parhau'n gofrestredig gyda'r Cyngor drwy gydol ei gyfnod ymsefydlu. Ni ellir dechrau cyfnod ymsefydlu os nad yw'r ANG wedi'i gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yng nghategori 'athro ysgol'. Os bydd ANG yn dechrau mewn swydd heb gofrestru yng nghategori 'athro ysgol' ond yn cofrestru ran o'r ffordd drwy'r tymor, yna o'r dyddiad cofrestru yng nghategori 'athro ysgol' y bydd y cyfnod ymsefydlu'n dechrau.

Nodir eithriadau i'r gofyniad i wneud cyfnod ymsefydlu yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau.

## Hyd y cyfnod ymsefydlu

Rhaid i bob ANG gwblhau cyfnod ymsefydlu tri thymor ysgol o hyd, neu gyfwerth[4]. Rhaid i athrawon newydd gymhwyso nad ydynt yn cael eu cyflogi'n amser llawn gwblhau 380 o sesiynau ysgol. Caiff athrawon newydd gymhwyso nad oes ganddynt gyflogaeth reolaidd (er enghraifft, athrawon cyflenwi byrdymor) gronni'r sesiynau hyn hyd nes bod 380 o sesiynau ysgol wedi'u cwblhau. Nid oes terfyn ar faint o amser y gallant ei gymryd i wneud hyn.

## Cyfnodau cyflogaeth sy'n cyfrif tuag at yr ymsefydlu

Pan fydd ANG wedi'i gofrestru, rhaid i bob cyfnod o gyflogaeth fel athro cymwys sy'n cynnwys un sesiwn ysgol[5] neu fwy gyfrif tuag at gyfnod ymsefydlu'r ANG a chael ei gofnodi gyda Chyngor y Gweithlu Addysg tan i 380 o sesiynau ysgol gael eu cwblhau. Ni cheir unrhyw hyblygrwydd yn hyn o beth, ac ni chaiff ANG nac ysgolion wneud cais i beidio â chynnwys cyfnod o gyflogaeth tuag at yr ymsefydlu.

Rhaid i ANG sy'n symud rhwng cyflogaeth llawn amser, cyflogaeth rhan amser a chyflenwi sicrhau bod pob cyfnod o gyflogaeth yn cael ei gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg drwy gyflwyno'r ffurflen briodol. Mae ffurflenni ar gael ar wefan Cyngor y Gweithlu Addysg www.cga.cymru.

Mae gwahanol drefniadau ar gyfer cofnodi sesiynau a thymhorau gan ddibynnu ar natur y gyflogaeth. Mae gwybodaeth bellach am sut i gofnodi cyfnodau addysgu[6] ar gael i athrawon

---

[4] Nodir yn y Rheoliadau yr amgylchiadau lle na fydd 'y rheol tri thymor', o bosib, yn berthnasol.
[5] Diffinir sesiwn ysgol fel un bore neu un prynhawn o gyflogaeth mewn ysgol.
[6] Ymsefydlu – trefniadau cyllido, olrhain a chofnodi.

newydd gymhwyso sy’n cyflawni eu cyfnod ymsefydlu fel athro cyflenwi/athrawes gyflenwi byrdymor ar gael ar wefan Cyngor y Gweithlu Addysg yn www.cga.cymru

## Ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso rhan-amser

Rhaid i’r cyfnod ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso rhan-amser gydymffurfio â’r un gofynion â’r rhai ar gyfer athrawon newydd gymhwyso llawn amser, fel y’i nodir yn y ddogfen ganllawiau hon. Rhaid i athrawon newydd gymhwyso rhan-amser gael yr un lefel o gymorth ag athrawon newydd gymhwyso llawn amser i sicrhau bod gan bob ANG brofiad tebyg o ran y cyfnod ymsefydlu.

Lle mae gan ANG gontract rhan-amser ar draws dwy neu fwy o ysgolion ar yr un pryd, bydd y corff priodol yn gweithio gyda’r mentoriaid ymsefydlu a’r gwiriwr allanol i sicrhau bod cyswllt rhwng yr ysgolion ac yn datblygu rhaglen ymsefydlu briodol ar gyfer yr ANG.

## Ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso sy’n cyflenwi

Mae’r canllawiau uchod ar gyfer cyflawni’r cyfnod ymsefydlu’n rhan-amser hefyd yn gymwys i gyfnodau o gyflenwi.

Yn ogystal, dylai athrawon newydd gymhwyso sy’n cyflawni eu cyfnod ymsefydlu drwy gronni cyfnodau byrdymor o gyflenwi sicrhau eu bod yn llenwi ‘Ffurflen hysbysu ymsefydlu athro cyflenwi/athrawes gyflenwi byrdymor’ Cyngor y Gweithlu Addysg cyn dechrau’r cyfnod ymsefydlu neu, fan bellaf, o fewn 10 diwrnod ar ôl dechrau’r cyfnod. Mae’r ffurflen ar gael ar wefan Cyngor y Gweithlu Addysg www.cga.cymru

Ni ellir cyfrif unrhyw gyfnodau cyflogaeth fel athro cyflenwi byrdymor a gyflawnwyd cyn 1 Medi 2012 tuag at y cyfnod ymsefydlu.

Ceir gwybodaeth ychwanegol am gwblhau cyfnod ymsefydlu fel athro cyflenwi byrdymor mewn adran bwrpasol ar wefan Dysgu Cymru yn www.dysgu.cymru.gov.uk

Gallwch gael rhagor o wybodaeth gyffredinol ar gyfer athrawon cyflenwi yn www.learning.gov.wales/resources/collections/supply-teachers?lang=cy

## Symud ysgol yn ystod cyfnod ymsefydlu

Dylai’r pennaeth/mentor ymsefydlu y mae’r ANG yn symud iddi gyflwyno ‘Ffurflen hysbysu ymsefydlu’ newydd i Gyngor y Gweithlu Addysg o fewn 10 niwrnod ar ôl i’r ANG ddechrau ar ei swydd yn yr ysgol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn i gyllid a chymorth mentora barhau. Mae’r ‘Ffurflen hysbysu ymsefydlu’ ar gael drwy wefan Cyngor y Gweithlu Addysg: www.cga.cymru

Os bydd yr ANG yn symud ysgol yn ystod eu cyfnod ymsefydlu, mater i’r consortiwm rhanbarthol fydd penderfynu a fydd y gwiriwr allanol yn cael ei gadw neu a oes angen newid.

## Sefydliadau lle gellir cynnal cyfnod ymsefydlu

Dim ond yn y lleoliadau canlynol y gellir cynnal ymsefydlu:

- ysgolion a gynhelir yng Nghymru (gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir lle bo gan yr ysgol bennaeth, a lle bo modd i'r ysgol ddarparu cyfnod ymsefydlu boddhaol a fydd yn rhoi cyfle i'r ANG fodloni'r safonau proffesiynol perthnasol)
- ysgolion arbennig nas cynhelir yng Nghymru
- sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n cynnwys colegau chweched dosbarth – gweler Atodiad B am fanylion y meini prawf
- ysgolion annibynnol yng Nghymru, − gweler Atodiad C am fanylion y meini prawf
- ysgol neu sefydliad addysg bellach yn Lloegr os byddai'r ysgol/sefydliad a'r cyfrifoldebau addysgu'n bodloni meini prawf ymsefydlu Lloegr.

## Sefydliadau lle na ellir cynnal cyfnod ymsefydlu

Ni ellir cynnal cyfnod ymsefydlu yn:

- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion cymunedol neu ysgolion arbennig sefydledig mewn ysbytai
- ysgolion annibynnol nad ydynt yn bodloni'r meini prawf a ddisgrifir yn y Rheoliadau
- ysgolion meithrin annibynnol (onid ydynt yn ysgolion annibynnol sy'n bodloni'r meini prawf a nodwyd yn y Rheoliadau) a lleoliadau blynyddoedd cynnar eraill (onid ydynt yn ysgolion meithrin a gynhelir)
- ysgolion sydd angen mesurau arbennig yn ôl Estyn. Gweler Atodiad E am fanylion.

# Cymorth yn ystod y cyfnod ymsefydlu

Mae gan bob ANG hawl i gael cymorth o safon uchel o ddechrau ei gyfnod ymsefydlu a derbyn arbenigedd a chyngor gan y mentor ymsefydlu a'r gwiriwr allanol a chonsortiwm rhanbarthol/awdurdod lleol. Bydd hyn yn sicrhau y gall athrawon newydd gymhwyso ddechrau eu gyrfa gyda'r cymorth sydd ei angen o'u cwmpas ac y byddant yn cael cyfnod ymsefydlu cadarnhaol a chefnogol.

Bydd y cymorth yn cynnwys:

**Mentora**
Mae Mentora yn rhan bwysig o ddysgu proffesiynol drwy gydol gyrfa ac mae'n rhan hanfodol o'r cyfnod ymsefydlu.

Caiff y cymorth a'r mentora a roddir i'r ANG yn ystod y cyfnod ymsefydlu ei ddarparu drwy bartneriaeth rhwng yr ysgol/ysgolion y mae'r ANG yn gweithio ynddi/ynddynt a'r gwiriwr allanol sy'n gweithio ar ran y corff priodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid i'r consortia rhanbarthol er mwyn cefnogi'r ddarpariaeth fentora a rôl y gwiriwr allanol. Cyngor y Gweithlu Addysg sy'n gyfrifol am weinyddu'r cyllid ar ran Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth am rolau a chyfrifoldebau, gweler Atodiad A.

Am ragor o wybodaeth am hyfforddiant a mentora, ewch i Dysgu Cymru:
http://learning.gov.wales/?skip=1&lang=cy

**Llai o amser addysgu yn ystod y cyfnod ymsefydlu**
Rhaid i athrawon sy'n cyflawni cyfnod ymsefydlu o dan y Rheoliadau beidio ag addysgu am fwy na 90 y cant o'r amser y byddai disgwyl iddynt ei dreulio'n addysgu yn yr ysgol fel arfer. Nodir y gofyniad hwn yn nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Yr Adran Addysg[7]) ac mae'n rhoi amser ychwanegol i athrawon newydd gymhwyso i ystyried eu harferion ac i gymryd rhan mewn gweithgarwch dysgu proffesiynol priodol yn ystod eu cyfnod ymsefydlu.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid i ysgolion i dalu am y costau sy'n gysylltiedig â lleihau amserlen yr ANG. Cyngor y Gweithlu Addysg sy'n gweinyddu'r cyllid ar ran Llywodraeth Cymru a cheir manylion pellach am sut i hawlio'r cyllid hwn ar y wefan www.cga.cymru

Mae'r ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol hefyd yn cynnwys yr hawl i ostyngiad pellach o 10 y cant i'w hamserlen addysgu sy'n weddill, er mwyn rhoi amser digyswllt statudol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) i'r ANG.

**Y proffil ymsefydlu**
Bydd disgwyl i athrawon newydd gymhwyso gasglu tystiolaeth drwy gydol eu cyfnod ymsefydlu er mwyn dangos eu cynnydd o ran bodloni'r safonau proffesiynol perthnasol ac i alluogi asesiad ar ddiwedd y cyfnod. Cofnodir y dystiolaeth yn eu proffil ymsefydlu sy'n ffocws pwysig o ran hunanadolygu a thrafod gyda'r mentor ymsefydlu a'r gwiriwr allanol er

---

7 https://www.gov.uk/education/teacher-pay-pensions-and-conditions

mwyn sicrhau bod athrawon newydd gymhwyso yn ymwybodol o feysydd y dylent eu blaenoriaethu ar gyfer eu dysgu proffesiynol pellach.

Bydd athrawon newydd gymhwyso sy'n cychwyn eu cyfnod ymsefydlu ar 1 Medi 2017 neu wedi hynny, yn gweithio yn unol â'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth a bydd eu proffil ymsefydlu'n rhan o'r Pasbort Dysgu Proffesiynol y dylid ei gwblhau drwy wefan Cyngor y Gweithlu Addysg: www.cga.cymru

Dylai athrawon newydd gymhwyso a ddechreuodd eu cyfnod ymsefydlu cyn mis Medi 2017 barhau â'r fformat ar gyfer proffil ymsefydlu a oedd ar waith ar ddechrau eu cyfnod ymsefydlu.

Ceir rhagor o wybodaeth am sut i gael mynediad i'r proffil ymsefydlu a'i gwblhau trwy wefan Cyngor y Gweithlu Addysg: www.cga.cymru

Drwy gydol y cyfnod ymsefydlu, bydd y mentor ymsefydlu/gwiriwr allanol a'r corff priodol yn mynd i mewn i'r proffil ymsefydlu i fonitro cynnydd a nodi unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen. Bydd y proffil ymsefydlu'n rhan sylweddol o'r dystiolaeth a gaiff ei hystyried yn yr asesiad terfynol a'r cymedroli sy'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu. Pan ddaw'r cyfnod ymsefydlu i ben, ni fydd gan y corff priodol, y mentor ymsefydlu na'r gwiriwr allanol yr hawl mwyach i weld y proffil ymsefydlu.

**Rhaglenni consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol**

Bydd ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gael ym mhob rhanbarth i gefnogi athrawon newydd gymhwyso yn ystod eu cyfnod ymsefydlu. I gael gwybodaeth am raglenni dysgu proffesiynol a chyfleoedd ym mhob consortia rhanbarthol, ewch i wefan y consortiwm dan sylw neu cysylltwch â chydlynydd ymsefydlu'r awdurdod lleol neu'r consortiwm rhanbarthol. Mae manylion cyswllt ar gael ar Dysgu Cymru: http://learning.gov.wales/?skip=1&lang=cy

**Adnoddau dysgu proffesiynol**

Mae ystod o adnoddau dysgu proffesiynol ar y dulliau dysgu proffesiynol mwyaf effeithiol i ymarferwyr ar gael ar wefan Dysgu Cymru: http://learning.gov.wales/?skip=1&lang=cy

# Estyniadau i'r cyfnod ymsefydlu

## Estyniadau cyn cwblhau'r cyfnod ymsefydlu

Os yw ANG wedi bod yn absennol o'r gwaith am gyfanswm o 30 diwrnod ysgol neu fwy yn ystod eu cyfnod ymsefydlu, efallai bydd y corff priodol yn ymestyn y cyfnod ymsefydlu am gyfanswm y cyfnodau o absenoldeb.

Efallai bydd corff priodol yn ei hystyried yn briodol rhoi estyniad sy'n llai na chyfanswm y cyfnodau o absenoldeb ar gyfnod ymsefydlu ANG, pan fydd y cyfnod o absenoldeb yn fwy na nifer y diwrnodau/sesiynau sydd eu hangen i gyrraedd 380 sesiwn, ar yr amod ei bod yn debygol y bydd tystiolaeth ddigonol i fodloni'r safonau proffesiynol perthnasol.

Ni all estyniadau o'r math fod yn fwy na chyfanswm y cyfnod(au) o absenoldeb.

Gall athrawon newydd gymhwyso sy'n cymryd cyfnod mamolaeth statudol wrth wneud eu cyfnod ymsefydlu neu estyniad i'w cyfnod ymsefydlu benderfynu p'un a ddylid ymestyn eu cyfnod ymsefydlu (neu ei ymestyn ymhellach) i gyd-fynd â'r dyddiau yr oeddent yn absennol. Ni ddylai unrhyw asesiadau sydd ar ôl i'w gwneud gael eu gwneud tan i'r ANG dan sylw ddychwelyd i'r gwaith a chael y cyfle i ddewis ymestyn (neu ymestyn ymhellach) y cyfnod ai peidio. Os bydd ANG yn dewis peidio ag ymestyn (neu ymestyn ymhellach) ei gyfnod ymsefydlu, bydd ei berfformiad yn dal i gael ei asesu yn erbyn y safonau proffesiynol perthnasol. Argymhellir, felly, fod unigolyn mewn sefyllfa o'r fath yn ceisio cyngor cyn penderfynu.

## Estyniadau ar ôl cwblhau'r cyfnod ymsefydlu

Gall y corff priodol, neu Gyngor y Gweithlu Addysg yn dilyn apêl, benderfynu a ddylid ymestyn cyfnod ymsefydlu ANG ar ôl cwblhau'r cyfnod hwnnw.  Dylid gwneud hyn fesul achos.

## Estyniadau mewn ysgol neu sefydliad gwahanol

Pan mae'n ofynnol i athrawon newydd gymhwyso ymestyn eu cyfnod ymsefydlu ar ôl cwblhau'r cyfnod ymsefydlu (gan fod y corff priodol yn nodi hynny, neu Gyngor y Gweithlu Addysg yn dilyn apêl), mae'n bosibl na fydd ganddynt gyflogaeth i barhau yn yr ysgol lle cwblhawyd y cyfnod ymsefydlu gwreiddiol. Mewn achosion o'r fath, cyfrifoldeb yr ANG yw canfod swydd addysgu arall er mwyn cwblhau'r cyfnod ymsefydlu. Nid oes dyddiad terfyn ar yr amser y caiff ANG i ganfod swydd addysgu arall. Cyfrifoldeb yr athrawon newydd gymhwyso yw sicrhau eu bod yn hysbysu'r ysgol ei bod yn ofynnol iddynt gwblhau estyniad i'w cyfnod ymsefydlu wrth dderbyn swydd arall mewn ysgol.

## Gweithredu os ceir cynnydd anfoddhaol

Os nad yw ANG yn gwneud cynnydd boddhaol tuag at gwblhau'r cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus, rhaid gweithredu'n gynnar, fel y'i nodir isod, i gefnogi a chynghori'r ANG er mwyn gwneud unrhyw welliannau angenrheidiol. Cefnogir hynny drwy ddefnyddio'r trefniadau cymorth a ddisgrifir yn gynharach.

Os oes gan y mentor ymsefydlu neu'r gwiriwr allanol unrhyw bryderon ynghylch cynnydd ANG, rhaid codi'r mater gyda'r ANG a'r corff priodol ar unwaith.

- Rhaid i'r ysgol neu'r mentor ymsefydlu yn achos athrawon newydd gymhwyso sy'n cyflawni eu cyfnod ymsefydlu fel athrawon cyflenwi roi gwybod yn brydlon, yn ysgrifenedig, am unrhyw bryderon mewn perthynas â chynnydd yr ANG i'r gwiriwr allanol, y corff priodol, a'r ANG ei hunan.
- Cyn gynted ag y daw'n amlwg nad yw'r ANG yn gwneud cynnydd boddhaol, bydd y corff priodol yn cynyddu'r gefnogaeth i'r ANG ar unwaith ac yn sicrhau bod cynllun gweithredu yn cael ei roi ar waith y bydd yr ANG, yr ysgol a'r gwiriwr allanol yn cytuno arno.
- Dylai'r corff priodol ysgrifennu at yr ANG ynglŷn â'r gofynion asesu a chanlyniadau peidio â chyflawni'r gwelliannau angenrheidiol. Dylai ysgol(ion) yr ANG a'r gwiriwr allanol gadw copi o'r hysbysiad ysgrifenedig.

### Gweithredu mewn achos o danberfformio difrifol

Mewn ambell achos arbennig o ddifrifol, gallai ddod yn amlwg, nid yn unig bod yr ANG yn debygol o fethu â chwblhau cyfnod ymsefydlu yn yr ysgol yn foddhaol, ond bod hyn hefyd yn cael effaith ddifrifol ar addysg dysgwyr o dan yr ANG. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd y pennaeth, ar ôl ymgynghori â'r corff priodol, am ystyried cychwyn gweithdrefn gallu unrhyw bryd cyn diwedd y cyfnod ymsefydlu. Prif ddiben gweithdrefnau o'r fath fydd cefnogi'r ANG i wella'i berfformiad. Gall methiant yr ANG i wella'i berfformiad arwain at ddiswyddo cyn diwedd y cyfnod ymsefydlu. Cyhyd ag y bo'r ANG yn yr ysgol rhaid i'r weithdrefn ymsefydlu barhau ochr yn ochr â'r weithdrefn gallu[8].

Y corff llywodraethu sy'n rheoli gweithdrefnau ar gyfer ymddygiad a disgyblaeth staff ysgol a rhaid sefydlu gweithdrefnau ar eu cyfer. Rhaid i'r corff llywodraethu hysbysu'r staff am y gweithdrefnau hyn[9].

Os bydd pennaeth yn dewis dilyn y trywydd hwn, rhaid i'r pennaeth hysbysu'r mentor allanol a'r corff priodol yn ysgrifenedig.

[8] http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/guidance-on-capability-procedures-for-use-with-school-teaching-staff/?lang=cy
[9] Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd)

## Penderfynu'n derfynol ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu

I sicrhau bod y broses asesu'n deg, yn gyson ac yn drylwyr, caiff penderfyniadau'r cyrff priodol eu safoni a'u cymedroli gan gonsortia ar lefel genedlaethol.

Mae'r broses asesu'n cynnwys y camau canlynol:

Cyn pen 10 diwrnod gwaith[10] ar ôl i ANG gwblhau cyfnod ymsefydlu, dylai'r gwiriwr allanol a'r mentor ymsefydlu roi argymhellion i'r corff priodol gan ddefnyddio proffil ymsefydlu'r ANG.

Cyn pen 20 diwrnod gwaith ar ôl cwblhau'r cyfnod ymsefydlu, mae'n rhaid i'r corff priodol ystyried yr argymhellion hyn a gwneud penderfyniad ynglŷn â'r canlynol mewn perthynas â'r ANG.

- A yw wedi cwblhau'r cyfnod ymsefydlu'n foddhaol?
- A oes angen estyniad i'r cyfnod ymsefydlu (o uchafswm o dri thymor ysgol)?
- A yw wedi methu cwblhau'r cyfnod ymsefydlu'n foddhaol?

Mae'n rhaid i'r corff priodol ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gafwyd gan yr ANG wrth ddod i'r penderfyniad hwn.

Cyn pen tri diwrnod gwaith ar ôl gwneud y penderfyniad a'i gofnodi, mae'n rhaid i'r corff priodol hysbysu'r ANG, corff llywodraethu'r ysgol neu'r coleg (neu'r perchennog os yw'n ysgol annibynnol), pennaeth yr ysgol (y bu'r ANG yn gweithio ynddi ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu), y cyflogwr (os yw'n wahanol i'r corff priodol ei hun) a Chyngor y Gweithlu Addysg.

Os bydd y corff priodol yn penderfynu estyn y cyfnod ymsefydlu neu'n dod i'r casgliad bod yr ANG wedi methu cwblhau ei gyfnod ymsefydlu'n foddhaol, mae'n rhaid i'r corff priodol hysbysu'r ANG yn ysgrifenedig fod ganddo'r hawl i apelio i Gyngor y Gweithlu Addysg, gan nodi cyfeiriad Cyngor y Gweithlu Addysg a'r dyddiad cau ar gyfer apeliadau.

Rhaid i ANG sy'n dymuno apelio anfon rhybudd o'r apêl i gyrraedd Cyngor y Gweithlu Addysg cyn pen 20 diwrnod gwaith ar ôl derbyn yr hysbysiad perthnasol. Ar ôl 20 diwrnod gwaith, mae'r hawl hon yn dod i ben oni bai i Gyngor y Gweithlu Addysg ymestyn y dyddiad cau, ond gall wneud hyn dim ond os yw'n fodlon y byddai peidio ag ymestyn yr amser yn golygu cryn anghyfiawnder.

Mae'r weithdrefn ar gyfer apelio wedi'i nodi yn Atodlen 3 o'r Rheoliadau. Ceir manylion llawn am y broses apelio ar wefan Cyngor y Gweithlu Addysg www.cga.cymru

---

[10] I berwyl y cylthlythyr cyfarwyddyd hwn, mae diwrnod gwaith yn golygu unrhyw ddiwrnod ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul neu ŵyl gyhoeddus.

## Canlyniadau methu cwblhau’r cyfnod ymsefydlu’n foddhaol o ran cyflogaeth

Mae methu cwblhau’r cyfnod ymsefydlu’n foddhaol yn golygu nad yw ANG yn gymwys bellach i gael ei gyflogi’n athro mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir gan na fydd modd iddo gofrestru mwyach gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yng nghategori athro ysgol.

Yn dilyn apêl i Gyngor y Gweithlu Addysg, ni chaiff athrawon newydd gymhwyso sydd heb dderbyn estyniad, ymgymryd â’u cyfnod ymsefydlu mewn sefydliad gwahanol yng Nghymru.

# Atodiad A: Rolau a chyfrifoldebau yn ystod cyfnod ymsefydlu

## Athrawon newydd gymhwyso

**Cyn ymgymryd â'u swydd addysgu gyntaf yng Nghymru, rhaid i athrawon newydd gymhwyso:**

- sicrhau eu bod wedi cofrestru[11] yng nghategori athro ysgol gyda Chyngor y Gweithlu Addysg
- sicrhau bod ganddynt wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer rôl athro, yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru ar ddiogelwch wrth recriwtio
- sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r trefniadau statudol ar gyfer ymsefydlu yng Nghymru
- sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r safonau proffesiynol newydd
- sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r pasbort dysgu proffesiynol

**Ar gael eu penodi i'w swydd ddysgu gyntaf, rhaid i athrawon newydd gymhwyso:**

- gyflwyno'r ffurflen briodol i hysbysu Cyngor y Gweithlu Addysg eu bod yn gwneud cyfnod ymsefydlu yng Nghymru er mwyn dechrau eu cyfnod ymsefydlu ac er mwyn i broffil ymsefydlu gael ei agor ar eu cyfer.
- lanlwytho eu Proffil Dechrau Gyrfa i'w proffil ymsefydlu er mwyn rhannu eu blaenoriaethau dysgu proffesiynol gyda'r ysgol a'u mentor
- sicrhau eu bod wedi cysylltu â'u mentor i drafod y trefniadau ar gyfer ymsefydlu.

**Drwy gydol y cyfnod ymsefydlu, rhaid i athrawon newydd gymhwyso sicrhau eu bod yn gwneud y canlynol.**

- Sicrhau bod eu cofnodion ymsefydlu yn gywir a chyfredol, drwy wneud y canlynol:
  - hysbysu eu pennaeth/asiantaeth gyflenwi eu bod yn athrawon newydd gymhwyso a bod pob sesiwn addysgu yn cyfri tuag at ymsefydlu
  - cofrestru pob sesiwn dysgu gyda Chyngor y Gweithlu Addysg drwy gyflwyno'r ffurflen briodol
  - hysbysu Cyngor y Gweithlu Addysg os byddant yn symud ysgol yn ystod eu cyfnod ymsefydlu neu os bydd eu contract yn newid, e.e. nifer yr oriau gwaith bob wythnos.

- Ar y cyd â'u mentor a'u cydweithwyr eraill, sicrhau eu bod yn defnyddio'r safonau a'r Pasbort Dysgu Proffesiynol er mwyn:
  - myfyrio'n gyson ar eu harferion a nodi profiadau er mwyn eu gosod yn erbyn y safonau proffesiynol gan ddefnyddio'r proffil ymsefydlu
  - nodi blaenoriaethau datblygu er mwyn cyflawni dysgu proffesiynol priodol
  - cofnodi ystod o brofiadau proffesiynol i ddangos eu bod yn bodloni'r safonau ar gyfer cyflawni'r cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus
  - bod yn barod iawn i rannu eu profiadau proffesiynol ag eraill.

[11] Rhaid i athrawon newydd gymhwyso sy'n gwneud eu cyfnod ymsefydlu mewn sefydliad addysg bellach gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg yn y categori 'athro ysgol' (yn ogystal â'r categori 'athro addysg bellach') am y cyfnod ymsefydlu cyfan

## Y pennaeth

**Cyn i ANG ymgymryd â'i swydd, rhaid i'r pennaeth:**

- sicrhau bod yr ANG wedi cofrestru yng nghategori athro ysgol gyda Chyngor y Gweithlu Addysg cyn dechrau ei swydd
- gadw at arferion recriwtio mwy diogel wrth gyflogi ANG yn uniongyrchol neu drwy asiantaethau cyflenwi neu gyflogi. Mae hyn yn cynnwys darparu geirdaon priodol a sicrhau gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru ar ddiogelwch wrth recriwtio
- sicrhau bod yr ANG yn cael cefnogaeth briodol o ddydd i ddydd gan fentor cymwysedig, profiadol, addas. Mae hyn yr un mor bwysig o ran ANG sy'n ymgymryd â chyfnod ymsefydlu ar sail amser llawn, rhan-amser neu gyflenwi
- ymgyfarwyddo â'r safonau proffesiynol newydd
- roi gwybod i Gyngor y Gweithlu Addysg drwy gyflwyno'r ffurflen Hysbysiad ynghylch Ymsefydlu fod ganddynt ANG wedi'i gyflogi yn yr ysgol ar gyfnod ymsefydlu.

**Drwy gydol y cyfnod ymsefydlu, rhaid i'r pennaeth:**

- sicrhau bod pob ANG yn gallu cysylltu â mentor sy'n gyfarwydd â'r safonau newydd ac sy'n meddu ar sgiliau a phrofiad addas i gefnogi'r ANG i ddefnyddio'r safonau yn ystod y cyfnod ymsefydlu
- ar y cyd â'r mentor, ddarparu'r dystiolaeth ofynnol a fydd yn cyfrannu at asesiad terfynol yr ANG gan y corff priodol
- lle bo'n briodol, sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion a nodir yn y ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol gan yr Adran Addysg, mewn perthynas ag ymsefydlu
- sicrhau bod pob ANG yn cael y cyfle i fanteisio ar amrywiaeth o brofiadau proffesiynol er mwyn cynnwys y safonau proffesiynol yn ei waith a'i arferion
- sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol ei bod yn ofynnol i ANG ddefnyddio'r safonau proffesiynol at ddibenion eu cyfnod ymsefydlu, â'u rôl wrth gefnogi'r trefniadau hyn
- sicrhau bod yr holl sesiynau addysgu sydd wedi'u cwblhau gan yr ANG wedi'u logio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg drwy gyflwyno'r ffurflen briodol.

## Mentor ymsefydlu[12]

**Cyn i'r ANG ymgymryd â'i swydd, rhaid i'r mentor ymsefydlu:**

- sicrhau eu bod wedi cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol priodol er mwyn cyflawni rôl y mentor ymsefydlu yn effeithiol
- sicrhau bod yr ANG yn cael cefnogaeth briodol o ddydd i ddydd. Mae hyn yr un mor bwysig o ran ANG sy'n ymgymryd â chyfnod ymsefydlu ar sail amser llawn, rhan-amser neu gyflenwi
- sicrhau eu bod yn deall rôl y safonau proffesiynol newydd at ddibenion ymsefydlu'r ANG

---

[12] Yn y rhan fwyaf o achosion bydd hyn yn gydweithiwr yn yr ysgol. O dan amgylchiadau eraill gallai fod yn fentor yn gweithio ar lefel leol/rhanbarthol (e.e. yn gwasanaethu nifer o ysgolion neu'n mentora athrawon cyflenwi)

- sicrhau bod yr ANG wedi lanlwytho'r Proffil Dechrau Gyrfa er mwyn adolygu ei flaenoriaethau cychwynnol o ran datblygu ei ddysgu proffesiynol
- gysylltu â'u ANG i drafod a chadarnhau'r trefniadau ar gyfer ymsefydlu.

**Drwy gydol y cyfnod ymsefydlu, rhaid i'r mentor ymsefydlu:**

- weithio'n agos â'r ANG, drwy gynnal sgyrsiau proffesiynol cyson, er mwyn archwilio ac adolygu profiadau proffesiynol, cefnogi a herio'r ANG mewn perthynas â'r safonau proffesiynol, a sicrhau bod y Pasbort Dysgu Proffesiynol yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau
- ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau, a allai gynnwys arsylwi gwersi, craffu ar waith, teithiau cerdded addysgol, llais y dysgwr ac ati, fel rhan o'r gefnogaeth barhaus a'r monitro a wneir ar gyfer datblygiad proffesiynol
- lle bo hynny'n briodol, tynnu sylw'r ANG, y gwiriwr allanol a'r corff priodol at unrhyw bryderon, gan ystyried y ffyrdd mwyaf effeithiol a chefnogol o ymyrryd a chyfeirio at y safonau er mwyn nodi meysydd lle gellid datblygu ymhellach
- weithio mewn partneriaeth â'r gwiriwr allanol i sicrhau y caiff y cyfnod ymsefydlu ei gynnal yn unol â'r rheoliadau a bod yr holl ofynion asesu'n cael eu bodloni
- sicrhau bod yr holl sesiynau addysgu sydd wedi'u cwblhau gan yr ANG wedi'u logio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg drwy gyflwyno'r ffurflen briodol.

## Gwiriwr allanol

**Cyn ymgymryd â'r rôl, rhaid i'r gwiriwr allanol:**

- sicrhau eu bod wedi manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol priodol er mwyn ymgymryd â rôl y gwiriwr allanol yn effeithiol
- sicrhau eu bod yn deall rôl y safonau proffesiynol newydd at ddibenion ymsefydlu'r ANG.

**Drwy gydol y cyfnod ymsefydlu, rhaid i'r gwiriwr allanol**

- sicrhau ansawdd y trefniadau ymsefydlu mewn ysgolion ar ran y corff/cyrff priodol i sicrhau bod Athrawon sydd Newydd Gymhwyso yn gallu defnyddio'r safonau yn effeithiol
- sefydlu dulliau o gefnogi mentoriaid ymsefydlu, yn benodol y rheini sy'n newydd i'r rôl a/neu lle bo pryderon ynghylch safon ac effeithiolrwydd y mentora
- ddarparu cefnogaeth mentora ychwanegol i'r ANG yn ôl y gofyn
- arsylwi'r ANG yn dysgu a defnyddio ystod o strategaethau a allai gynnwys craffu ar waith a gwrando ar eraill fel rhan o'r monitro
- weithio mewn partneriaeth â'r mentoriaid ymsefydlu i sicrhau y cynhelir y cyfnod ymsefydlu'n unol â'r rheoliadau, y caiff yr ANG gefnogaeth addas ac y bodlonir yr holl ofynion ar gyfer yr asesiad
- wneud argymhellion a darparu tystiolaeth ynghylch asesu i'r cyrff priodol
- gymryd rhan yn y broses safoni/gymedroli genedlaethol yn ôl ceisiadau gan y consortiwm rhanbarthol.

## Consortiwm/awdurdod lleol/corff priodol

**Mae gan y consortiwm/awdurdod lleol/corff priodol y dyletswyddau canlynol.**

- Mae gan y corff priodol gyfrifoldeb statudol cyffredinol am oruchwylio a hyfforddi’r holl athrawon newydd gymhwyso yn yr awdurdod lleol/awdurdodau lleol y mae’n gyfrifol amdano/amdanynt, ac am benderfynu’n derfynol ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu a yw’r ANG wedi llwyddo yn ei gyfnod ymsefydlu, wedi methu, ynteu a oes angen ymestyn y cyfnod ymsefydlu.
- Mae’r corff priodol yn gyfrifol am sicrhau bod cyfnod ymsefydlu pob ANG yn cynnwys rhaglen o ddysgu proffesiynol, monitro a chefnogaeth fel a nodir yn y manyleb ymsefydlu ar gyfer consortia (Medi 2016). Rhaid i’r corff priodol sicrhau bod systemau sicrhau ansawdd effeithiol a chadarn yn cael eu sefydlu ar lefel genedlaethol fel bod pob ANG yn derbyn cefnogaeth ymsefydlu o’r ansawdd uchaf.
- Sicrhau eu bod yn deall rôl y safonau proffesiynol newydd at ddibenion ymsefydlu'r ANG.
- Weithio gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg i sicrhau bod y Pasbort Dysgu Proffesiynol yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi'r broses ymsefydlu.
- Sicrhau bod trefniadau sicrhau ansawdd priodol yn eu lle fel bod y trefniadau ymsefydlu yn diwallu anghenion yr ANG a'r gofynion statudol.
- Sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol priodol ar gael i gefnogi'r gwaith mentora o ran y broses ymsefydlu.
- Ddefnyddio tystiolaeth o'r asesiad i ddod i benderfyniad terfynol ar ganlyniad y cyfnod ymsefydlu.
- Roi gwybod i Gyngor y Gweithlu Addysg beth yw canlyniad pob ANG.
- Annog/hwyluso'r gwaith o ddod o hyd i adnoddau enghreifftiol i ddefnyddio'r safonau proffesiynol yn effeithiol.
- Weithio gyda darparwyr addysg gychwynnol athrawon rhanbarthol i godi ymwybyddiaeth myfyrwyr o'r broses ymsefydlu.
- Gydweithredu gyda chydweithwyr y consortiwm/awdurdod lleol/corff priodol i sicrhau bod y broses ymsefydlu'n gyson ledled Cymru.
- Weithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg i sicrhau bod yr ANG sy'n ymgymryd â chyfnod ymsefydlu yn cael gwiriwr allanol.

## Yr asiantaeth gyflogi neu gyflenwi

**Cyn dechrau lleoliad mewn ysgol, rhaid i’r asiantaeth gyflogi neu gyflenwi:**

- sicrhau eu bod yn ymwybodol o statws ymsefydlu'r athrawon sy'n cael eu lleoli mewn ysgolion, a rhoi gwybod i'r ysgolion am statws o’r fath
- sicrhau bod ANG wedi cofrestru yng nghategori athro ysgol gyda Chyngor y Gweithlu Addysg cyn dechrau swydd a gwirio statws cofrestru pob athro sydd wedi cofrestru gyda'r asiantaeth o leiaf yn flynyddol ar ôl cael gohebiaeth gan y Cyngor
- sicrhau bod y gwiriadau perthnasol – gan gynnwys gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd – wedi’u gwneud a bod y geirdaon yn rhai priodol
- sicrhau bod gan yr unigolyn sy'n cael ei gyflenwi i'r ysgol y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad angenrheidiol i ymgymryd â'r rôl yn effeithiol.

**Drwy gydol y cyfnod ymsefydlu, rhaid i’r asiantaeth gyflogi neu gyflenwi**

- sicrhau eu bod yn deall rôl y safonau proffesiynol newydd at ddibenion ymsefydlu'r ANG
- sicrhau bod yr ANG sy'n ymgymryd â gwaith cyflenwi yn gyfarwydd â'r safonau newydd a'i fod yn gallu manteisio ar brofiadau proffesiynol sy'n galluogi iddo ddangos ystod lawn o'r safonau proffesiynol
- cefnogi dysgu proffesiynol yr ANG, gan gynnwys ei gyfeirio at wybodaeth ac adnoddau dysgu proffesiynol fel ei fod yn gallu datblygu ei arferion yn unol â'r safonau proffesiynol
- sicrhau y rhoddir gwybodaeth berthnasol i athrawon newydd gymhwyso ynghylch eu hysgol - a hynny cyn iddynt fynd yno, os yn bosib
- sicrhau bod gofynion a disgwyliadau lleoliadau yn glir i athrawon newydd gymhwyso.

## Cyngor y Gweithlu Addysg

**Rhaid i Gyngor y Gweithlu Addysg:**

- gynnal a darparu mynediad at y proffil ymsefydlu statudol ar-lein drwy'r Pasbort Dysgu Proffesiynol fel bod yr ANG yn gallu myfyrio ar y safonau a chofnodi ei brofiadau proffesiynol
- weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r consortia i gynnal rhan proffil ymsefydlu'r Pasbort Dysgu Proffesiynol a sicrhau mynediad i'r partïon, gan gynnwys unrhyw ddeunyddiau ategol
- sicrhau bod y sawl sy’n ymgymryd â’r rhaglen ymsefydlu yn meddu ar SAC ac wedi’i gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yng nghategori ‘athro ysgol’.
- casglu, coladu a chynnal ffynhonnell ddata ganolog ar gyfer athrawon sy'n ymgymryd â'r rhaglen ymsefydlu
- rannu'r wybodaeth hon gyda'r partïon cyfrifol wrth ddarparu'r rhaglen ymsefydlu drwy gyfleuster Cyngor y Gweithlu Addysg ar y we
- weithio gyda'r consortia i sicrhau bod yr ANG sy'n ymgymryd â chyfnod ymsefydlu yn cael gwiriwr allanol
- weinyddu cyllid ymsefydlu ar ran Llywodraeth Cymru
- gyhoeddi tystysgrifau ymsefydlu ar sail canlyniadau ymsefydlu a ddarperir gan y corff priodol
- wrando ar apeliadau ymsefydlu.

**Llywodraeth Cymru**

**Rhaid i Lywodraeth Cymru:**

- weithio gyda'r consortia a Chyngor y Gweithlu Addysg i gytuno ar fanyleb proffil ymsefydlu'r Pasbort Dysgu Proffesiynol
- gyhoeddi'r safonau addysgu ac arwain proffesiynol newydd
- ddarparu gwybodaeth ar-lein ynghylch y safonau proffesiynol newydd, gan gynnwys enghreifftiau
- adolygu'r canllawiau ymsefydlu statudol i adlewyrchu'r system ar-lein a'r safonau newydd erbyn 1 Medi 2017
- adolygu'r fanyleb ymsefydlu erbyn 1 Medi 2017
- weithio gyda darparwyr addysg gychwynnol athrawon i gynllunio ar gyfer cyflwyno'r safonau newydd i'r rhaglenni hynny
- bennu polisi cenedlaethol ar ymsefydlu
- lunio rheoliadau perthnasol, a’u hadolygu

- bennu blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol
- ddatblygu canllaw statudol gan ymgynghori â phartneriaid
- weithio gyda’r consortia rhanbarthol a Chyngor y Gweithlu Addysg i fonitro ac adolygu’r trefniadau cenedlaethol.

**Darparwyr addysg gychwynnol athrawon**

**Rhaid i ddarparwyr addysg gychwynnol athrawon:**

- weithio gyda chonsortia rhanbarthol i godi ymwybyddiaeth myfyrwyr o'r broses ymsefydlu
- sicrhau eu bod yn deall rôl y safonau proffesiynol newydd at ddibenion ymsefydlu'r ANG.

# Atodiad B: Sefydliadau addysg bellach

Gall sefydliadau addysg bellach, sy'n cynnwys colegau chweched dosbarth, ddarparu cyfnod ymsefydlu cyhyd â bo'r meini prawf canlynol yn cael eu bodloni.

- Rhaid i sefydliadau addysg bellach gytuno ag awdurdod lleol y bydd yn gweithredu fel y corff priodol cyn cynnig ymsefydlu yn y sefydliad. Gall unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru fod yn gorff priodol ar gyfer sefydliad addysg bellach, ond argymhellir y dylai'r awdurdod lleol ar gyfer ardal y sefydliad addysg bellach weithredu fel y corff priodol. Heb gytundeb o'r fath bydd unrhyw gyfnod ymsefydlu a gyflawnir yn annilys.
- Bydd yr ANG yn derbyn cymorth a mentora rheolaidd, ynghyd â'r amser priodol i fyfyrio ar eu harferion a chymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol priodol.
- Ni ddylai'r ANG dreulio mwy na 10 y cant o'u hamser addysgu yn addysgu dosbarthiadau o ddysgwyr sy'n 19 oed a throsodd yn bennaf.
- Dylai'r ANG, yn ystod y cyfnod ymsefydlu, dreulio'r hyn sydd gyfwerth â 10 diwrnod ysgol o leiaf yn addysgu dysgwyr o oedran ysgol gorfodol (argymhellir y dylai sefydliadau addysg bellach, gyda chymorth eu corff priodol, ddarparu rhwng 20 a 25 o ddyddiau o brofiad mewn ysgol).

Dylai'r corff priodol fodloni ei hun fod y sefydliad addysg bellach y mae wedi cytuno i fod yn gorff priodol ar ei gyfer yn bodloni'r holl ofynion ar gyfer ymsefydlu statudol athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru cyn i'r cyfnod ymsefydlu ddechrau, a bod hynny'n parhau i fod yn wir drwy gydol y cyfnod ymsefydlu.

Caiff y corff priodol godi tâl rhesymol i'r sefydliad addysg bellach am ymgymryd â rôl y corff priodol yn ystod cyfnod ymsefydlu'r ANG. Bydd angen i sefydliadau addysg bellach hefyd dalu costau sy'n gysylltiedig ag ymsefydlu e.e. darparu gwiriwr allanol a llai o amser addysgu yn ystod y cyfnod ymsefydlu.

Lle caiff y meini prawf uchod eu bodloni, rhaid i athrawon newydd gymhwyso gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg yng nghategori 'athro ysgol' yn ogystal â'r categori 'athro addysg bellach'.

## Atodiad C: Ysgolion annibynnol

Gall y cyfnod ymsefydlu ond gael ei gynnal mewn ysgolion annibynnol yng Nghymru lle bodlonir y meini prawf canlynol.

- Y cwricwlwm ar gyfer unrhyw ddysgwyr y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yr ysgol yn bodloni gofynion y cwricwlwm cenedlaethol (ac eithrio'r trefniadau asesu).
- Y cwricwlwm ar gyfer pob dysgwr yng Nghyfnodau Allweddol 3 neu 4 yn cynnwys yr holl bynciau craidd a sylfaen.
- Yr ysgol a'r awdurdod lleol wedi cytuno y bydd yr awdurdod lleol yn gweithredu fel corff priodol yr ysgol. Gall unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru fod yn gorff priodol ar gyfer ysgolion annibynnol, ond argymhellir y dylai'r awdurdod lleol ar gyfer ardal yr ysgol annibynnol weithredu fel y corff priodol. Rhaid trefnu hyn cyn dechrau'r cyfnod ymsefydlu. Os na wneir hynny, ni fydd unrhyw gyfnodau ymsefydlu a gwblhawyd cyn y cytundeb hwn yn cyfrif. Ni cheir unrhyw ddisgresiwn yn gysylltiedig â'r gofyniad hwn.

Dylai'r corff priodol fodloni ei hun fod yr ysgol annibynnol y mae wedi cytuno i fod yn gorff priodol ar ei chyfer yn bodloni'r holl ofynion ar gyfer ymsefydlu statudol athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru cyn i'r cyfnod ymsefydlu ddechrau, a bod hynny'n parhau i fod yn wir drwy gydol y cyfnod ymsefydlu.

Caiff y corff priodol godi tâl rhesymol i'r ysgol annibynnol am ymgymryd â rôl y corff priodol yn ystod cyfnod ymsefydlu'r ANG. Bydd angen i ysgolion annibynnol hefyd dalu costau sy'n gysylltiedig ag ymsefydlu e.e. darparu gwiriwr allanol a llai o amser addysgu yn ystod y cyfnod ymsefydlu.

Lle caiff y meini prawf uchod eu bodloni, argymhellir bod athrawon newydd gymhwyso sy'n gwneud cyfnod ymsefydlu mewn ysgol annibynnol yn cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg yng nghategori 'athro ysgol'.

## Atodiad D: Cyfnodau ymsefydlu a gwblhawyd cyn 1 Medi 2012

Bydd unrhyw gyfnod ymsefydlu a gwblhawyd cyn 1 Medi 2012 yn cael ei gario drosodd ac yn cyfrif tuag at ymsefydlu.

Mae'r cyfnodau o gyflogaeth a gyflawnir cyn 1 Medi 2012 y gellir eu cyfrif tuag at ymsefydlu yn cynnwys tymhorau cyfan, dau hanner tymor olynol (heb ystyried gwyliau'r ysgol) neu gyfnod cyflogaeth a bennir gan y corff priodol (oddeutu 10 wythnos olynol). Gellir cyfrif y cyfnodau hyn o gyflogaeth tuag at y cyfnod ymsefydlu os cadarnhawyd yn flaenorol eu bod yn rhan o'r cyfnod ymsefydlu.

Dylai athrawon newydd gymhwyso a ddechreuodd eu cyfnod ymsefydlu cyn 1 Medi 2012 barhau i ddefnyddio'r deunyddiau ategol cyfredol ar gyfer asesu, arsylwi a gosod targedau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Cyngor y Gweithlu Addysg yn www.cga.cymru.

Ni all unrhyw gyfnodau o gyflogaeth fel athro cyflenwi byrdymor a gynhaliwyd cyn 1 Medi 2012 gyfrif tuag at y cyfnod ymsefydlu.

## Atodiad E: Ymsefydlu ac ysgolion sydd angen mesurau arbennig

Yn gyffredinol, ni ellir gwneud cyfnod ymsefydlu mewn ysgol sydd, ym marn Estyn, angen mesurau arbennig.

Mae dau eithriad posibl i'r gofyniad hwn:

- dechreuodd y sawl dan sylw ar ei gyfnod/chyfnod ymsefydlu, neu roedd yn cael ei gyflogi/chyflogi fel athro graddedig neu athro cofrestredig neu roedd ar gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth, yn yr ysgol ar adeg pan nad oedd y fath amgylchiadau yn gymwys
- mae un o Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru wedi ardystio'n ysgrifenedig ei fod/bod yn fodlon fod yr ysgol yn addas i'r diben o ddarparu goruchwyliaeth a hyfforddiant ymsefydlu.

Bydd y corff priodol yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw gefnogaeth ychwanegol angenrheidiol wedi'i threfnu.

I weld canllawiau Estyn ar gyfer ysgolion sydd mewn mesurau arbennig a'r cyfnod ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso, ewch i: www.estyn.gov.uk

Gydag ymholiadau eraill, e-bostiwch enquiries@estyn.gov.wales neu ffoniwch Estyn ar 029 2044 6446.